

AWDURDOD Y PARC CENEDLAETHOL

11 Rhagfyr 2019

Yn bresennol: Y Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)
Y Cynghorydd P Baker, y Cynghorydd Mrs D Clements, y
Cynghorydd K Doolin, y Cynghorydd M Evans, Dr M
Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, y
Cynghorydd M James, Mr G Jones, y Cynghorydd P
Kidney, y Cynghorydd PJ Morgan, Y Cynghorydd R Owens,
y Cynghorydd A Wilcox, y Cynghorydd M Williams a'r
Cynghorydd S Yelland

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.50pm)

1. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Dr R Plummer.

2. Croeso

Croesawodd y Cadeirydd Mrs Sarah Hoss, Aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, i'w chyfarfod cyntaf o'r Awdurdod. Croesawodd hefyd y Cynghorydd Mike James yn ôl yn dilyn ei lawdriniaeth.

3. Datgelu buddiant

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2019 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2019.

5. Materion yn Codi

(a) Cyfraniad APCAP i Wynebu Heriau'r Argyfwng Newid Hinsawdd (Cofnod 10)

Gofynnodd un Aelod a wnaed unrhyw gynnydd ar y Cynllun Gweithredu y cytunwyd y byddai'n cael ei baratoi. Atebodd y Prif Weithredwr y byddai hyn yn cael ei ddwyn naill ai i'r cyfarfod nesaf neu i'r cyfarfod ym mis Ebrill fel y gallai gael ei alinio â'r Cynllun Corfforaethol.

NODWYD.

6. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn bresennol mewn nifer o ddigwyddiadau ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod. Roedd y rheini'n cynnwys:



- Y Prosiect Treftadaeth Twristiaeth yng Nghaerfyrddin ar 21 Hydref.
- Cyfarfod â Dr Pike ar 23 Hydref i gael sgwrs ddiddorol ar ddal a storio carbon
- Cyflwyno siec i DPJ Foundation ar 29 Hydref am yr elw a gafwyd wrth gynnal Sioe Frenhinol Cymru.
- Cyflwyno gwobr yng Ngwobrau Twristiaeth Sir Benfro ym Mharc Gwyliau Meadow House ar 7 Tachwedd.
- Derbyn eco-label yr Allwedd Werdd a oedd yn cydnabod ymrwymiad i dwristiaeth gynaliadwy yn Oriol y Parc.
- Cyflwyno Gwobr Platinwm cyfraniad oes gan National Parks UK i Dr George Middleton yn Nhyddewi ar 8 Tachwedd.
- Cyfarfod â Chyfeillion Oriol y Parc ar 8 Tachwedd.
- Mynychu Gorymdaith Goffa y Cwrt Lît yn Nhrefdraeth ar 10 Tachwedd.
- Mynychu, ynghyd ag Aelodau eraill, Seminar Tirweddau Gwarchodedig Cymru ym Mhlas Tan y Bwlch, Eryri, rhwng 11 a 13 Tachwedd a hefyd cyfarfod Gweithredol Parciau Cenedlaethol Cymru a gynhaliwyd yr un pryd.
- Cyfarfod Fforwm Cadeiryddion Parciau Cenedlaethol y DU yn Llundain ar 27 Tachwedd.
- Cyfarfod â'r Gweinidog Addysg yn Ysgol Coastlands i lansio'r prosiect Gwreiddiau sy'n cysylltu ysgolion a chynhyrchwyr bwyd lleol.
- Mynychu Gwobrau Chwaraeon Sir Benfro yn Folly Farm ar 29 Tachwedd.
- Mynychu Cinio Blynyddol yr NFU yng Nghasblaidd ar 30 Tachwedd.

7. Adroddiadau o gyfarfodydd amryw Bwyllgorau'r Awdurdod

Cyflwynwyd yr adroddiadau a ganlyn o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried / er gwybodaeth.

- (i) Y Pwyllgorau Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 2 ac 11 Medi 2019.
- (ii) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 25 Medi 2019.
- (iii) Y Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2019.
- (iv) Y Pwyllgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2019.

8. Penodi Aelod(au) i lenwi'r swyddi gwag ar y Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol, y Fforwm Gweithwyr, Pwyllgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau, Pwyllgor Apeliadau a Gweithgor Agregau Rhanbarthol De-orllewin Cymru – Fforwm Aelodau y Datganiad Technegol Rhanbarthol.

PENDERFYNWYD



- (a) Penodi Mrs S Hoss i'r Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol, y Fforwm Gweithwyr, Pwyllgor Cynorthwyo a Datblygu Aelodau a'r Pwyllgor Apeliadau.
- (b) Penodi'r Cynghorydd M James i Weithgor Agregau Rhanbarthol De-orllewin Cymru – Fforwm Aelodau y Datganiad Technegol Rhanbarthol.

9. Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd R Owens: Na ddylai Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro godi tâl am barcio ceir ym Maes Parcio Gorllewin Angle

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r eitem hon yn cael ei hystyried yn nes ymlaen yn yr agenda (gweler cofnod 13).

10. Ymgynghori ar Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Drafft 2020 - 2024

Atgoffwyd yr Aelodau fod drafft o Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol 2020-2024 a dogfennau cysylltiedig wedi'u cymeradwyo i ymgynghori yn eu cylch gan yr Awdurdod ym mis Mehefin 2019. Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus wedi cau ar 31 Hydref 2019 ac atodwyd adroddiad terfynol am y broses ymgysylltu ac ymgynghori i'r adroddiad. Derbyniwyd 57 o sylwadau ar y Cynllun Rheoli drafft a'r dogfennau cysylltiedig (sef yr Arfarniad drafft o Gynaliadwyedd, yr Aseiad drafft o'r Rheoliadau Cynefinoedd a'r Aseiad drafft o Effaith y Cynllun ar Gydraddoldeb). Roedd y sylwadau, ynghyd ag argymhellion y swyddogion mewn ymateb iddynt, yn atodedig i'r adroddiad.

Aeth yr adroddiad rhagddo i grynhoi'r newidiadau arfaethedig i'r fersiwn ymgynghori o'r Cynllun Rheoli drafft a'r aseidiadau cysylltiedig ac roedd fersiynau 'wedi'u tracio' o'r dogfennau hefyd yn atodedig i'r adroddiad.

O ran y camau nesaf, soniwyd, yn amodol ar gymeradwyo argymhellion yr adroddiad, y bwriedir cysylltu â'r rhai a ymatebodd iddo gydag adborth ar sut yr ystyriwyd eu sylwadau, a byddai'r dogfennau terfynol yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Byddai'r Awdurdod yn gweithio gyda phartneriaid i weithredu a monitro'r Cynllun Rheoli, a byddai partneriaid yn cael eu hannog i fabwysiadu'r Cynllun Rheoli a / neu'r effeithiau ynddo, ac i ddathlu'r cyfraniadau hynny. Y bwriad oedd cynnal sgysiau ac ymgysylltu trwy gydol y cyfnod o gyflwyno'r Cynllun Rheoli. Sefydlwyd grŵp traws-adrannol i ymgysylltu ar y cynllun gweithredu yn yr Awdurdod, a dyma fyddai ei brif dasg; byddai'r canlyniadau'n cael eu hadrodd trwy fframwaith Rheoli Perfformiad yr Awdurdod. Gorffennodd y swyddog ar ran yr holl staff perthnasol trwy ddiolch i'r Aelodau am eu cyfraniad a'u cefnogaeth ym mhroses y Cynllun Rheoli.

Llongyfarchodd yr Aelodau'r tîm ar y gwaith a oedd wedi'i wneud ac roeddent yn falch gyda lefel yr ymgysylltu – yn gyhoeddus a chyda phartneriaid allweddol. Roeddent yn falch o nodi y byddai hyn yn barhaus ac y byddai adborth yn cael ei roi i'r rhai a oedd wedi darparu



sylwadau. Roeddent yn cytuno, pe bai sefydliadau partner yn mabwysiadu'r cynllun, y byddai hyn yn helpu i'w gyflawni. Gwnaeth rhai Aelodau bwyntiau manwl, gan gynnwys awgrym y dylid enwi'r lleoedd yn y ffotograffau yn y ddogfen i annog pobl i ymweld â nhw.

PENDERFYNWYD:

- a) Cytuno ar yr Adroddiad terfynol am Ymgysylltu ac Ymgynghori ar Gynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro 2020-2024 drafft, a'r argymhellion a gynigiodd y swyddogion, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- b) Cymeradwyo fersiwn derfynol Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2020-2024 a'r argymhellion a gynigiodd y Swyddogion (fel y nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad).
- c) Cymeradwyo fersiwn derfynol yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r argymhellion a gynigiodd y Swyddogion (fel y nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad).
- d) Cymeradwyo fersiwn derfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (sy'n ymgorffori'r Asesiad Amgylcheddol Strategol) a fersiwn derfynol y Crynodeb o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (ar gael ar dudalen Papurau Pwyllgor yr Awdurdod – Awdurdod y Parc Cenedlaethol 11/12/2019).
- e) Cymeradwyo fersiwn derfynol yr Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd a'r argymhellion a gynigiodd y Swyddogion (fel y nodir yn Atodiad 4 i'r adroddiad).
- f) Cymeradwyo'r datganiad ôl-fabwysiadu o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (Atodiad 5 i'r adroddiad).
- g) Rhoi awdurdod dirprwyedig i Bennaeth Cyfeiriad y Parc i wneud mân newidiadau (hy diweddariadau technegol neu gywiro gwallau argraffyddol) i'r uchod yn ôl yr angen cyn eu cyhoeddi.

- 11. Datganiad Diogelwch Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**
Soniwyd bod Datganiad a Chanllawiau Diogelwch yr Awdurdod wedi'u hadolygu i gymryd i ystyriaeth newidiadau i ddeddfwriaeth ac yn y ffordd yr oedd y newidiadau hyn wedi'u dehongli a'u cyflawni ar lefel leol yng Ngorllewin Cymru. Nodwyd bod Cyngor Sir Penfro, yr asiantaeth arweiniol o ran rheoli diogelwch yn lleol, wedi rhoi cefnogaeth i ddiweddarau Datganiad a Chanllawiau'r Awdurdod.

Cytunodd yr Aelodau fod hwn yn bolisi cynhwysfawr ac roedd rhai wedi darparu sylwadau manwl i'r swyddogion. Cytunwyd bod y syniad, fel y manylir arno yn y polisi, o roi cardiau diogelwch i atgoffa staff sut i gadw eu hunain yn ddiogel, yn arfer da, ond fe wnaethant awgrymu y gallai'r rhain hefyd gynnwys nodyn i'w hatgoffa o'r camau i'w cymryd os ydynt yn amau camdriniaeth.

PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiad Diogelwch Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.



12. Cynllun Cydraddoldeb Drafft 2020-24

Soniwyd, o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd; cyhoeddi datganiad yn nodi'r camau yr oedd wedi'u cymryd (neu yr oedd yn bwriadu eu cymryd) i gyflawni'r amcanion a pha mor hir yr oedd yn disgwyl ei gymryd i wneud hyn; gwneud trefniadau priodol i fonitro cynnydd tuag at gyflawni ei amcanion ac i fonitro effeithiolrwydd ei ddull gweithredu; a rhoi ystyriaeth briodol i'r wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb a oedd ganddo wrth ystyried beth ddylai ei amcanion cydraddoldeb fod.

Roedd amcanion cyfredol yr Awdurdod wedi'u hadolygu ac roedd yr amcanion arfaethedig newydd yn dod o dan bedwar pennawd gyda phedwar nod tymor hwy, Y Parc - Tirwedd i Bawb; Ein Gwasanaethau – hygyrch a chynhwysol; Ein Gweithlu – Amrywiol, Cefnogol a Chynhwysol; Llywodraethu ac Ymgysylltu – Mwy o Gyfranogiad.

Roedd y cynllun a atodwyd i'r adroddiad yn gynllun drafft, a gofynnwyd am sylwadau'r Aelodau amdano. Byddai fersiwn derfynol y Cynllun Cydraddoldeb yn cael ei chyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Chwefror.

Wrth ddrafftio'r Cynllun, roedd y swyddogion wedi nodi y gallai amcanion a chynllun cydraddoldeb yr Awdurdod gael yr effaith fwyaf trwy ystyried y dystiolaeth, adborth o ymgysylltu, arfer gorau a chysylltiadau strategol, ac roedd y ddogfen Tystiolaeth ac Ymgysylltu a oedd yn atodedig i'r adroddiad yn nodi sut roedd y rhain wedi dylanwadu ar greu'r amcanion a'r camau gweithredu.

Awgrymodd yr Aelodau y dylid cyfeirio mwy at rôl Aelodau a gwirfoddolwyr hefyd. Amlygwyd y pwysigrwydd bod manau cyhoeddus yn hygyrch hefyd ac atebodd y swyddogion mai'r gobaith oedd y byddai rhai o'r camau a nodwyd yn cryfhau'r maes hwn. Yn olaf, awgrymwyd y dylid gosod cerrig milltir dros dro ar gyfer y camau gweithredu.

NODWYD.

13. Adolygiad Blynyddol o Weithrediad a Rheolaeth Meysydd Parcio'r Awdurdod Lle Codwyd Tâl yn 2019

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod, ym mis Tachwedd 2016, wedi cymeradwyo adroddiad a oedd yn amlinellu gweithrediad presennol y maes parcio ac yn argymhell newidiadau a oedd yn cynnwys diweddariadau blynyddol.

Yr adroddiad i'r Awdurdod oedd y trydydd adroddiad blynyddol o'r fath ac roedd yn cynnwys y ffigurau cyffredinol am nifer y tocynnau a roddwyd, incwm o barcio a chostau gweithredu. Cadarnhaodd yr adroddiad fod



gwaith i symud ymlaen ag amrywiad o Orchymyn Parcio Ceir yr Awdurdod wedi'i gwblhau, yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus, a'r dyddiad gweithredu oedd 1 Rhagfyr 2019. Roedd y Gorchymyn yn darparu ar gyfer cyflwyno taliadau parcio ym Maes Parcio Nolton Haven, Gorllewin Angle, Penalun ac Amroth, estyn y cyfnod codi tâl ym mhob safle i gynnwys y cyfnod rhwng 5pm a 7pm, a chynyddu'r tâl dyddiol am barcio bysiau o £3 i £8. Byddai ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gosod peiriannau talu ac arddangos ac arwyddion newydd yn cael eu cynnal yn ystod y misoedd nesaf oherwydd byddai'r newidiadau yn dod i rym o ddechrau'r flwyddyn codi tâl, hynny yw 15 Mawrth.

Aeth yr adroddiad ymlaen i ddweud bod gwaith ar y gweill i weld beth fyddai'r gost a'r manteision o gyflwyno peiriannau talu ac arddangos heb arian parod ar ei safleoedd, a pha mor ddibynadwy oedden nhw, ac y byddai'n destun adroddiad i'r Awdurdod maes o law. Fodd bynnag, cadarnhawyd nad oedd swyddogion ar hyn o bryd yn ystyried cael gwared ag arian parod fel ffordd o dalu ym meysydd parcio'r Awdurdod. Roedd trafodaethau hefyd yn parhau gyda Chyngor Sir Penfro i weld beth fyddai'r costau a'r manteision o ymestyn y patrolau gorfodi ym meysydd parcio'r Awdurdod i'r hyn a elwid yn 'gyfnos sifil' hynny yw hanner awr cyn y wawr.

Yn olaf, soniwyd y byddai maes parcio Aber Llydan yn cael ei uwchraddio a'i adnewyddu'n sylweddol, ac y byddai'r gwaith yn cael ei wneud mewn dau gam. Eglurodd y swyddogion y byddai'r gwaith hwn yn cael ei ariannu o gronfa wrth gefn a grëwyd ar ddiwedd 2017/18.

Gwnaeth yr Aelodau nifer o sylwadau ar yr adroddiad, a dywedodd un yr awgrymwyd mewn cyfarfod o Bwyllgor Cyngor Sir Penfro y gallai Awdurdod y Parc Cenedlaethol gymryd drosodd y gwaith o redeg toiledau cyhoeddus a oedd yn ymyl maes parcio a oedd yn cael ei gynnal gan yr Awdurdod. Atebodd y swyddogion fod trafodaethau ynghylch rheoli cyrchfannau yn parhau gyda'r Cyngor Sir a bod adroddiad am hyn yn debygol o gael ei roi gerbron cyfarfod nesaf yr Awdurdod. Mater i'r Aelodau fyddai trafod unrhyw gynigion.

NODWYD.

14. Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd R Owens: Na ddylai Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro godi tâl am barcio ceir ym Maes Parcio Gorllewin Angle

Esboniodd y Cynghorydd Owens ei fod yn teimlo, oherwydd nad oedd gan Angle sylfaen economaidd gref ac nad oedd yn gallu cynnal siop na swyddfa bost, na ddylid codi tâl am barcio ceir yno. Eiliwyd y cynnig hwn, a nodwyd nad oedd pobl yn ymweld â'r lle mewn tywydd garw gan nad oedd yno unrhyw atyniadau heblaw'r traeth. Nodwyd hefyd bod dealltwriaeth gyffredinol yn y pentref fod y tir wedi'i roi i'r Awdurdod gan



Ystâd Angle ar gyfer parcio ceir am ddim, a oedd yn groes i eiriad y ddogfen drawsgludo. O ran y pwynt hwn, dywedodd y swyddog ei bod wedi cael ei gwneud yn glir i Ystâd Angle pe byddent yn gallu cyflwyno unrhyw ddogfennaeth a oedd yn egluro ei bwriad mewn perthynas â chodi tâl pan roddwyd y tir i'r Awdurdod, y byddai hyn yn cael ei ystyried. Mynegodd Aelod arall bryderon am y niwed i enw da'r Awdurdod pe byddai unrhyw amheuaeth ynghylch y rhodd o dir.

Fodd bynnag, dywedodd Aelodau eraill nad oedd llawer o bentrefi eisiau cyflwyno taliadau am barcio ceir ac roeddent yn credu na ddylid gwneud eithriad i Angle gan y byddai hyn yn gosod cynsail a oedd yn anodd ei gyfiawnhau. Teimlai Aelodau eraill fod angen polisi ar yr Awdurdod, fel y gellir gwneud penderfyniadau fel hwn o fewn cyd-destun ehangach.

Pleidleisiwyd ar y cynnig i beidio â chodi tâl am barcio ceir yn Angle, ond gwrthodwyd y cynnig.

NODWYD.

15. Fframwaith Polisi ar gyfer Gweithredu Meysydd Parcio Codi Tâl yr Awdurdod

Soniwyd bod cyfarfod y Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol ar 6 Tachwedd 2019 wedi ystyried adroddiad gan Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod a oedd wedi awgrymu y gallai polisi meysydd parcio fod yn ddefnyddiol a sicrhau cysondeb. Cytunodd nifer o Aelodau â'r argymhelliad hwn ac felly roedd swyddogion wedi llunio'r adroddiad hwn a oedd yn nodi'r amcanion polisi a fyddai'n darparu fframwaith ar gyfer parhad yng ngallu'r Awdurdod i weithredu meysydd parcio codi tâl. Fodd bynnag, nodwyd y byddai materion gweithredol manwl yn parhau i gael eu hystyried yn ystod yr adolygiad blynyddol.

Croesawodd yr Aelodau'r adroddiad, ond teimlwyd bod yr hyn a gyflwynwyd yn rhy eang ac nad oedd yn bolisi gan nad oedd yn dilyn templed safonol yr Awdurdod. Awgrymwyd y dylid ailddrafftio'r ddogfen i gynnwys penawdau fel y sail ar gyfer codi tâl, ym mhle y caiff tâl ei godi, rolau a chyfrifoldebau, cyfathrebiadau, tocynnau tymor a'r canlyniadau i gymunedau. Dylai hefyd bennu cyfnod adolygu a gweithdrefnau cwyno a gorfodi. Teimlwyd y byddai hyn yn darparu eglurder wrth symud ymlaen ac yn rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa gryfach.

PENDERFYNWYD bod y swyddogion yn llunio drafft diwygiedig o'r fframwaith polisi a oedd yn ystyried meysydd parcio mewn persbectif ehangach ac y dylid cyflwyno hwn i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol.



16. Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2020/21

Atgoffwyd yr Aelodau mai cylch gwaith Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol oedd pennu'r cyflogau a'r lwfansau sy'n daladwy i Aelodau gan awdurdodau lleol, gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yng Nghymru. Cyhoeddwyd ei Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2020/21, a nodwyd y prif argymhellion sy'n berthnasol i'r Awdurdod hwn.

Gofynnwyd am farn yr Aelodau ynghylch a ddylid cyflwyno ymateb i Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, ac os felly, beth ddylai ymateb o'r fath ei gynnwys.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei nodi, ac na ddylid anfon unrhyw ymateb at Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

17. Cyfansoddiad y Pwyllgor Safonau

Soniwyd bod Pwyllgor Safonau'r Awdurdod wedi'i sefydlu o dan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 i ddiogelu ei safonau ymddygiad a'i briodoldeb. Roedd ei gyfansoddiad wedi'i nodi yn y Rheoliadau, ac ar hyn o bryd roedd yn cynnwys chwe Aelod, tri ohonynt yn Aelodau Annibynnol.

Roedd Rheoliad 24 yn datgan mai tri Aelod oedd y cworwm ar gyfer y Pwyllgor, a bod hanner y rheini i fod yn Aelodau Annibynnol. O dan y trefniadau presennol, pe na bai un o'r Aelodau Annibynnol ar gael ar gyfer cyfarfod, gallai fod mwy o Aelodau'r Awdurdod nag Aelodau Annibynnol, gan fethu â chael cworwm yn y cyfarfod. Er mwyn osgoi'r sefyllfa hon, argymhellwyd cynyddu aelodaeth y Pwyllgor Safonau i saith. Gan fod tymor swydd Cadeirydd y Pwyllgor wedi dod i ben, gellid gosod hysbyseb ar gyfer dau aelod annibynnol newydd, pe byddai'r Aelodau yn cytuno â'r cynnydd.

Nodwyd hefyd bod swydd wag wedi codi i Aelod o'r Awdurdod wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau; penodiad pedair blynedd oedd hwn. Cyn y cyfarfod roedd Dr R Plummer wedi dweud wrth y Cadeirydd ei bod yn barod i wasanaethu ar y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:

- a) Penodi Dr R Plummer i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau;
- b) Cynyddu Aelodaeth y Pwyllgor Safonau i saith trwy gynyddu nifer yr Aelodau Annibynnol i bedwar; a
- c) Hysbysebu am ddau Aelod Annibynnol newydd o'r Pwyllgor Safonau ar y cyfle cyntaf.



18. Uwchraddio Trwydded Microsoft Suite

Soniwyd bod mwyafrif systemau a chymwysiadau TG yr Awdurdod yn cael eu cynnal gan nifer o weinyddion a oedd yn rhedeg meddalwedd gweinydd seilwaith Microsoft. Microsoft Exchange oedd system e-bost yr Awdurdod, ac roedd Microsoft Office ac Outlook wedi'u gosod ar bob cyfrifiadur pen desg a gliniadur. Oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, nid oedd yr Awdurdod wedi uwchraddio'r fersiynau o feddalwedd gweinydd na meddalwedd y bwrdd gwaith ers nifer o flynyddoedd. O fis Ionawr 2020 ymlaen, ni fyddai Microsoft yn darparu cymorth technegol na diweddariadau meddalwedd a diogelwch ar gyfer y plattform gweinydd yr oedd systemau'r Awdurdod yn rhedeg arno, a byddai'r un cymorth yn dod i ben ar gyfer y fersiynau gosodedig o Exchange ac Office ym mis Hydref 2020.

Soniwyd bod dau opsiwn wrth symud ymlaen – opsiwn lletya, lle byddai Office 365 yn cael ei letya a'i gefnogi gan Microsoft; ac opsiwn ar safle, lle byddai Office 2019 yn preswyllo ar weinyddion yr Awdurdod gyda'r cymorth technegol a'r diweddariadau yn cael eu darparu o bell gan Microsoft. Er y byddai nifer o gyfleoedd i weithio'n gydweithredol a thrawsnewidiol yn gysylltiedig ag Office 365, nid oedd gan yr Awdurdod y gyllideb refeniw ar hyn o bryd i ymrwymo i'r gwariant blynyddol yr oedd ei angen.

Felly, argymhellwyd y dylid prynu trwydded barhaol Office 2019 (hynny yw, un cost cyfalaf); cafwyd dyfynbris o oddeutu £108,000 ar gyfer trwyddedu gweinyddwyr a phlattform Office 2019. Byddai'r cyllid yn dod o Gronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf yr Awdurdod. Nodwyd, er y byddai Microsoft yn darparu cymorth hyd at 2025, y gallai adolygiad o systemau'r Awdurdod gael ei gynnal cyn hynny.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r gwariant o £108,000 i dalu am ddarparu trwyddedau Microsoft hyd at 2025.

19. Cymeradwyo Gwariant Cyfalaf Ychwanegol ar gyfer Caffael Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan ac Amrywio Rheolau Sefydlog Contractau yn y Weithdrefn Gaffael

Dywedodd y Cadeirydd, gan fod y Rheolwr Cyllid yn bresennol, y byddai'n tynnu'r eitem frys hon allan o drefn yr Agenda.

Soniwyd bod yr Awdurdod wedi mynd allan i dendr ar y cyd â Chyngor Sir Penfro ar gyfer darparu pwyntiau gwefru cerbydau trydan (EVCP's) yn y sir. Roedd y tendr wedi gofyn am ddau becyn prisio penodol, un ar gyfer Cyngor Sir Penfro a'r llall ar gyfer yr Awdurdod, gyda phob Awdurdod yn rheoli contract ar wahân gyda'r darparwr. O ganlyniad i'r broses dendro, roedd Cyngor Sir Penfro wedi penodi Silverstone Green Energy i gyflenwi a ffitio'r EVCP's, a byddai'r Awdurdod yn ceisio penodi'r un cwmni.



Roedd Cyllideb Gyfalaf gymeradwy'r Awdurdod ar gyfer 2019/20 yn cynnwys £30,000 ar gyfer darparu EVCP's, ac roedd rhan o'r cyllid a ddyfarnwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys £30,000 arall i helpu i osod EVCP's. Yn dilyn yr ymarfer tendro, y swm a ddyfynnwyd ar gyfer pedwar EVCP yr Awdurdod oedd £83,030 a oedd yn cynnwys arian wrth gefn o £9,825. Felly byddai'n rhaid i'r Awdurdod ariannu o'i adnoddau ei hun uchafswm o £23,030 yn fwy na'r £60,000 a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Credai'r Aelodau fod hwn yn brosiect rhagorol a chadarnhawyd y byddai pwyntiau gwefru cyflym yn cael eu gosod ac y byddai'r rhain yr un fath â'r rhai a gaffaelwyd gan Gyngor Sir Benfro fel bod cysondeb ledled y sir.

PENDERFYNWYD:

- a) Cymeradwyo amrywiad i Reolau Sefydlog Contractau ar gyfer caffael pedwar Pwynt Gwefru Cerbydau Trydan trwy Gyngor Sir Penfro.
- b) Dyrannu £23,030 arall i'r prosiect yn ychwanegol at y £60,000 a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

20. Diddymu National Parks UK Ltd

Soniwyd bod yr Awdurdod, ers ei ffurfio, wedi gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Cyn datganoli roedd Cymdeithas Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol wedi bod yn ganolbwynt i'r gwaith partneriaeth hwn ac wedi bod yn fodd effeithiol o lobïo ar faterion fel Deddf yr Amgylchedd 1995. Ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd yr Alban ym 1999, roedd y rhan fwyaf o'r materion yr oedd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn ymwneud â nhw wedi cael eu datganoli gyda Pharciau Cenedlaethol Cymru yn dod yn brif ffocws eu gwaith. Bu newid tebyg yn Lloegr hefyd gyda'r prif ffocws ar weithio gyda'i gilydd fel Parciau Cenedlaethol Lloegr.

Ers datganoli roedd Cymdeithas Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, neu National Parks UK, fel y cafodd ei ailenwi yn 2014, wedi cael trafferth dod o hyd i rôl ac wedi canolbwyntio'r rhan fwyaf o'i hamser ar gyfathrebu, hyfforddi Aelodau a digwyddiadau fel Cynhadledd y Parciau Cenedlaethol (a drefnwyd gan bob Awdurdod Parc Cenedlaethol yn unigol ar rota).

Roedd Cadeiryddion Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i gyd wedi bod yn Gyfarwyddwyr National Parks UK, ond dros y pum mlynedd diwethaf, cydnabuwyd nad oedd y bartneriaeth yn gweithio'n effeithiol, ac arweiniodd hynny at broses hir o ailasesu gwaith National Parks UK. Yn 2018, cymerodd y Cyfarwyddwyr gyfres o benderfyniadau a oedd yn cynnwys symud i ffwrdd o fodel o bartneriaeth a oedd yn canolbwyntio ar un sefydliad canolog, i un a oedd yn canolbwyntio ar ddarparu ystod gyfyngedig o wasanaethau a ddarparwyd gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol unigol ar ran yr holl Awdurdodau trwy broses o 'gomisiynu mewnol'. Yn ogystal, roedd Cyfarwyddwyr National Parks UK wedi cytuno i ddiddymu strwythur y cwmni ar gyfer National Parks UK. Er mai penderfyniad y Cyfarwyddwyr oedd y penderfyniad hwn yn y pen draw,



ystyriwyd ei bod yn arfer da cael caniatâd Aelodau National Parks UK, hynny yw Aelodau'r 15 Awdurdod Parc Cenedlaethol.

PENDERFYNWYD bod diddymu National Parks UK Ltd yn cael ei gymeradwyo a dirprwyo unrhyw gamau sy'n ofynnol i roi'r penderfyniad hwn ar waith i'r Cadeirydd.

[Cyflwynodd Dr R Heath-Davies ei hymddiheuriadau a gadawodd y cyfarfod yn ystod yr eitem ganlynol.]

21. 50fed Pen-blwydd Llwybr yr Arfordir

Soniwyd y byddai 50fed pen-blwydd Llwybr Arfordir Sir Benfro yn 2020 yn gyfle delfrydol i ddathlu un o lwybrau cerdded pellter hir gorau'r byd ac yn gyfle i dynnu sylw at rôl bwysig yr Awdurdod wrth reoli Llwybr yr Arfordir.

Roedd nifer fach o ddigwyddiadau pwrpasol wedi'u cynllunio i gefnogi'r pen-blwydd ond roedd angen ystyried yr hinsawdd economaidd heriol yr oedd yr Awdurdod yn gweithredu ynddi. Lle bynnag y bo modd, byddai gweithgareddau presennol Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cael eu brandio i dynnu sylw at arwyddocâd y flwyddyn a chynyddu cyfleoedd i ymgysylltu â chynulleidfaoedd allweddol a chodi proffil y Llwybr a'r Pen-blwydd.

Nodwyd rhestr arfaethedig o ddigwyddiadau yn yr adroddiad, ac roedd hyn yn cynnwys nifer o gyfleoedd yn gysylltiedig â grwpiau amrywiol o ddefnyddwyr er enghraifft ymgysylltu ag ysgolion, a gofynnwyd i'r Aelodau gymeradwyo'r rhaglen.

Roedd yr Aelodau'n frwd dros y digwyddiadau a gynigiwyd ac awgrymwyd syniadau eraill hefyd. Awgrymwyd y dylid sefydlu Gweithgor i fwrw ymlaen â hyn, a gofynnwyd i'r Aelodau gyflwyno eu henwau os oedd ganddynt ddiddordeb mewn gwasanaethu ar grŵp o'r fath.

PENDERFYNWYD sefydlu Gweithgor i ystyried digwyddiadau mewn perthynas â 50fed Pen-blwydd Llwybr yr Arfordir.

